BRITISH ECOLOGICAL SOCIETY

Tirweddau Cymru
Landscapes Wales

## Cyflawni 30x30 yng ghymru

# Gwydnwch ecolegol mewn Tirweddau Dynodedig



Through science we can

## CYDNABYDDIAETHAU

Awduron yr adroddiad hwn oedd Rebecca Walley (Cymdeithas Ecolegol Prydain), Ruth Lovell (Tirweddau Cymru) a Howard Davies (Ymgynghorydd Amgylcheddol Annibynnol).

Hoffai Cymdeithas Ecolegol Prydain, Tirweddau Cymru a'r awduron gydnabod cyfraniad pawb a oedd yn bresennol yn y gweithdy arbenigol a gynhaliwyd ar-lein ym mis Ionawr 2025, ac aelodau gweithgor Tirweddau Dynodedig Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru am adborth sylweddol.

Mae'r awduron yn diolch i Dr Joseph Bailey (Prifysgol Anglia Ruskin) a Dr. Paul Sinnadurai (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) am sylwadau ychwanegol sydd wedi siapio'r adroddiad terfynol.

*Nid yw'r safbwyntiau a'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn perthyn i'r sefydliadau y mae'r cyfranwyr yn perthyn iddynt, ac felly ni ddylid eu priodoli i'r sefydliadau hynny.*

## ENW A AWGRYMIR

Cymdeithas Ecolegol Prydain a Thirweddau Cymru, (2025). Cyflawni 30x30 yng Nghymru: Gwydnwch ecolegol mewn Tirweddau Dynodedig. Llundain, Y DU.
Ar gael yn: https://www.britishecologicalsociety.org/our-policy-work/

## MANYLION CYSWLLT

E-bost: policy@britishecologicalsociety.org
Cyfeiriad: British Ecological Society, 42 Wharf Road, London, United Kingdom, N1 7GS
Hawlfraint © Cymdeithas Ecolegol Prydain a Thirweddau Cymru, (2025).

# Argymhellion

## 1. Integreiddio Adfer Natur i Gynlluniau Rheoli

Mae Cynlluniau Rheoli Tirweddau Dynodedig yn gyfle allweddol i roi uchelgais a chamau gweithredu Adfer Natur ar flaen y gad yng ngwaith parhaus y tirweddau hyn. Mae meini prawf ABCD Cymdeithas Ecolegol Prydain (BES) yn helpu i ddatblygu a darparu adferiad natur mewn ffordd gynhwysol, sy'n cyd-fynd â ffyrdd o weithio Tirweddau Dynodedig.

**Argymhelliad ar gyfer A:** Nid yw pob tir mewn Tirweddau Dynodedig yn darparu ar gyfer natur yn y tymor hir ar hyn o bryd - er mwyn i ardal gael ei hystyried ar gyfer 30 erbyn 30, rhaid iddi gael ei chynnwys mewn cynllun rheoli tymor hir.

**Argymhelliad ar gyfer B:** Er mwyn meithrin gwytnwch ecolegol, dylai fframwaith DECCA fod yn ganolog i'r holl gynlluniau ar gyfer Tirweddau Dynodedig. Bydd adfer natur a gwella bioamrywiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Dirweddau Dynodedig adrodd ar ddetholiad o fetrigau bioamrywiaeth y tu hwnt i fesur ardal.

**Argymhelliad ar gyfer C:** Er mwyn dangos tystiolaeth o reoli Tirweddau Dynodedig yn effeithiol ar gyfer 30 erbyn 30 a thu hwnt, rhaid gwneud ymdrech ar y cyd i gynyddu sgiliau a gwybodaeth ar draws y rhwydwaith presennol. Ni fydd Adfer Natur yn llwyddiannus heb adnoddau priodol i gyflawni'r gwaith hanfodol o gasglu a dadansoddi data sydd ei angen.

**Argymhelliad ar gyfer D:** Rhaid datblygu a chyflwyno Cynlluniau Rheoli'r Dyfodol yn gynhwysol, gan ymgynghori ac ymgysylltu'n wirioneddol â'r rheini sy'n byw mewn Tirweddau Dynodedig, yn gweithio ynddynt neu'n ymweld â nhw. Dylid cydnabod cyfraniadau gwaith ar lefel gymunedol a gwyddoniaeth dinasyddion yn briodol.

## 2. Ehangu a chryfhau cydweithio

Rhaid i Barciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol adeiladu ar eu cydweithrediadau presennol i gyflawni ar gyfer natur ar raddfa tirwedd. Bydd chwilio am gysylltiadau cydweithredol newydd gyda'r rheini y tu mewn a'r tu allan i Dirweddau Dynodedig yn sbarduno ymgysylltu a chyllid ar gyfer adfer natur.

## 3. Meithrin sgiliau gwyrdd a chroesawu technolegau newydd

Er mwyn manteisio ar ddulliau a thechnolegau newydd ym maes ecoleg, yn ogystal â gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig, dylid datblygu sgiliau gwyrdd mewn Tirweddau Dynodedig. Er enghraifft, yr angen am alluoedd GIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol) cryfach mewn Tirweddau Dynodedig.

# Sail resymegol

Cyhoeddodd Cymdeithas Ecolegol Prydain (BES) adroddiad ar 'Ardaloedd Gwarchodedig ac Adfer Natur' yn 2022[1] a oedd yn argymell bod angen newidiadau trawsnewidiol o ran meddwl a pholisi i'r DU er mwyn cyflawni ei hymrwymiadau rhyngwladol i 30 erbyn 30. Mae angen i ardaloedd gwarchodedig esblygu i gyflawni ar gyfer natur, ond mae cadwraeth ystyrlon ar sail ardal yn gofyn am asiantaethau statudol, cymunedau a thirfeddianwyr sydd wedi'u grymuso ac sydd ag adnoddau. Mae **effeithiolrwydd** ardaloedd gwarchodedig a mesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal yn allweddol i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth.

Fel rhan o Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, aeth y Gweithgor Tirweddau Dynodedig (DL) ati i ddatblygu meini prawf ABCD BES i archwilio beth mae hyn yn ei olygu mewn cyd-destun Cymreig. Ym mis Ionawr 2025, cynhaliodd BES weithdy gyda'r Gweithgor ac ecolegwyr i archwilio meini prawf ABCD BES, ac i nodi rhwystrau a chyfleoedd i DL gyfrannu at 30 erbyn 30.

# Cefndir

## Gosod y cyd-destun

Mae'r Gweithgor Tirweddau Dynodedig Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn edrych ar sut gall DL gefnogi bioamrywiaeth. Tynnodd sylw at y brys sydd ei angen i ddelio â'r argyfyngau natur a hinsawdd, gan gyfeirio at y berthynas uniongyrchol a dwys rhwng cymunedau a'r amgylchedd. Nodwyd y diffyg cyflymder presennol yn adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru (Senedd Cymru) a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar 'atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030'.[2]

Mae gan DL gylch gwaith eang, ac mae cyflawni'r cylch gwaith hwn mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl ddeall a mwynhau'r lleoedd hyn yn well yn gofyn llawer. Mae'r gofyniad hwn yn arbennig o anodd pan nad yw'r cyrff sy'n gyfrifol am reoli DL yn berchen ar fawr ddim o'r tir eu hunain mewn rhai achosion. Mae hyn yn golygu bod partneriaethau, cynghreiriau, rhwydweithiau a chysylltiadau personol yn amhrisiadwy er mwyn cyflawni pethau.

## Tirweddau Dynodedig a bioamrywiaeth

Mae dau brif ddiben i Barciau Cenedlaethol: "gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol; a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig parciau cenedlaethol"[3], sydd ychydig yn wahanol i ddibenion Tirweddau Cenedlaethol: "gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal".[4]

1 Protected Areas and Nature Recovery, British Ecological Society, 2022: https://www.britishecologicalsociety.org/wp-content/uploads/2022/04/BES_Protected_Areas_Report.pdf

2 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, Pwyllgor NHAS Senedd Cymru, Ionawr 2025: https://senedd.wales/media/ts0f1ekc/cr-ld16916-e.pdf

3 National Parks purposes: https://www.nationalparks.uk/what-is-a-national-park/

4 National Landscapes purpose: https://national-landscapes.org.uk/faq



Mae Parciau Cenedlaethol yn cyflawni'r amcanion rheoli tir cynaliadwy: "cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy; lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd; cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu; a gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd atynt ac ymgysylltu â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni."[5]

Mae'r pedwerydd amcan rheoli tir cynaliadwy - "cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd atynt ac ymgysylltu â nhw" - yn mapio dibenion y Parc Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, ond mae tensiynau gan fod angen i ni symud tuag at feddwl yn fwy ecolegol a chyflawni'r gwaith o adfer natur. Gwnaeth Adolygiad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru argymhellion ar gyfer Tirweddau Dynodedig, OECMs a monitro - mae Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, fel ardaloedd dynodedig, yn gyfrifol am weithredu argymhellion gan bob is-grŵp, nid dim ond y rheini sy'n canolbwyntio'n benodol ar Dirweddau Dynodedig.

## Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA) Cymru[6] yn cynnwys nod i "wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2030, ac adfer bioamrywiaeth erbyn 2050 fel rhan o'r cerrig milltir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol." Gall fod yn anodd asesu a mesur gwytnwch ecosystemau. Mae ecosystemau'n gymhleth ac yn ddeinamig, gyda rhyngweithiadau ar wahanol raddfeydd ac ymatebion gwahanol i aflonyddwch.

Dylid datblygu Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn (REN)[7] ar raddfa leol gydag arbenigwyr lleol a phartneriaethau tirweddau, yn hytrach nag ar raddfa genedlaethol. Y cam cyntaf tuag at ddatblygu REN yw edrych ar ein safleoedd gwarchodedig, y mae llawer ohonynt heb fod mewn cyflwr da. Gallant fod yn rhy fach neu'n rhy ynysig i fod yn wydn ar eu pen eu hunain, ond mae ganddynt botensial mawr o'u hystyried mewn tirwedd o safleoedd natur eraill uchel eu gwerth.

5 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023: https://www.legislation.gov.uk/asc/2023/4/section/1/enacted

6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents

7 Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn daearol a dŵr croyw: canllaw i ymarferwyr yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Mawrth 2021: https://nrwcmsv13-a3hwekacajb3frbw.a02.azurefd.net/1cljd5ax/resilient-ecological-networks-wales-handbook.pdf?rmode=pad&v=1db135193bf5430

# Ystyried meini prawf ABCD BES yng Nghymru

## A: Mae'r ardal yn cyflawni dros fyd natur yn y tymor hir

- **Beth yw 'tymor hir' o safbwynt ecolegol?**
  Mae adroddiad BES yn ystyried 25 mlynedd fel isafswm amser ar gyfer ardal i gyflawni dros natur yn y tymor hir. Cefnogir hyn gan Gomisiwn y Byd IUCN ar Ardaloedd Gwarchodedig sy'n ymhelaethu bod 25 mlynedd yn isafswm, ochr yn ochr â'r bwriad i gynllunio ar gyfer y dyfodol.[8]

- **Safbwyntiau eraill ynghylch 'tymor hir'**
  Efallai na fydd tymor hir ar gyfer ecoleg yn cyd-fynd â sut mae rhanddeiliaid eraill yn deall tymor hir - gall amserlenni cyllido fod cyn lleied â blwyddyn neu ddwy, tra bo adroddiadau corfforaethol yn digwydd bob pum mlynedd. Efallai y bydd tirfeddianwyr yn rhwym wrth gytundebau rheoli tir sy'n llawer byrrach na 25 mlynedd, ac efallai na fydd yn bosibl eu hymestyn.

  Mae 25 mlynedd hefyd yn hirach na'r cylch gwleidyddol yng Nghymru - ond er mwyn cyflawni dros fyd natur, mae angen i ni allu trafod cyflawni camau gweithredu am gyfnod sy'n hirach na thymhorau gwleidyddol.

- **Dylai llinellau amser ymwneud â gweithgarwch a phwrpas**
  Dylai amserlenni ymwneud â gweithgarwch a phwrpas - mae ein hamserlenni cymdeithasol (e.e. cyllidebau blwyddyn, tymhorau seneddol pedair blynedd, ymrwymiadau 2030) yn cynnig cyfle i fyfyrio, ond bydd amserlenni ecolegol yn cael eu llywio gan brosesau a methodolegau.

- **Cynnal ymdeimlad o frys ac ennill ewyllys**
  Mae cynnal ymdeimlad o frys i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn bwysig - nodwyd na all 'tymor hir' ddigwydd ar draul uniongyrchedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn meithrin ewyllys gyhoeddus a gwleidyddol i weithredu.

## B: Meithrin gwytnwch ecolegol a gwella bioamrywiaeth

- **Dull gwytnwch ecolegol yng Nghymru**
  Mae'r dull gwytnwch ecosystem yn cael ei ddatblygu yng Nghymru - sy'n ystyried swyddogaethau a gwasanaethau ecosystem. Mae hyn yn gweithio mewn partneriaeth â fframwaith DECCA (Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd ac Agweddau ar wytnwch ecosystemau).[9]

---

8 Technical Note on Defining 'long-term' for protected areas and OECMs, IUCN WCPA, July 2024: https://iucn.org/sites/default/files/2024-09/iucn-wcpa-technical-note-14.pdf

9 Ecosystem Resilience in a Nutshell, NRW: https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/696279/ecosystem-resilience-in-a-nutshell-1-what-is-ecosystem-resilience.pdf

Mae'r gwahaniaeth rhwng strwythurol a swyddogaethol yn bwysig ac yn cysylltu â DECCA. Mae amrywiaeth yn strwythurol (cynefinoedd amrywiol, amrywiaeth o strwythurau mewn cynefinoedd, strwythurau rhwng cynefinoedd) ac yn swyddogaethol (amrywiaeth ecolegol); mae maint yn strwythurol; mae cyflwr yn swyddogaethol; mae cysylltedd yn strwythurol (cysylltiadau ffisegol) ac yn swyddogaethol (argaeledd lleiniau, pellteroedd, addasrwydd lleiniau ac ati) ac mae'r gallu i addasu yn swyddogaethol.

- **Cyfuno dulliau cyfannol ac wedi'u targedu**
  Nodwyd na ddylai defnyddio dull gwytnwch ecosystemau eithrio camau gweithredu ar rywogaethau agored i niwed, e.e. mae rhaglen Natur am Byth[10] yn canolbwyntio ar achub rhywogaethau rhag diflannu'n llwyr yng Nghymru. Mae angen cyfuniad o ddulliau cyfannol ac wedi'u targedu i wella bioamrywiaeth.

  Er mwyn meithrin gwytnwch ecolegol ledled Cymru, bydd angen ehangu'r ffocws y tu hwnt i safleoedd dynodedig.

## C: Canlyniadau cadwraeth a gyflawnir drwy reoli a monitro effeithiol

- **Casglu data a sefydlu llinell sylfaen**
  Rhaid i reolaeth effeithiol fod yn seiliedig ar ddata sylfaenol a rhaglen casglu data addas. Mae cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o ran technolegau newydd a thechnolegau sy'n gwella, fel synhwyro o bell, i roi hwb i gapasiti casglu data. Mae datblygu fframwaith ar y cyd ar gyfer monitro yn allweddol i gyflawni hyn.[11]

- **Adnoddau**
  Mae adnoddau yn fater hollbwysig ar gyfer rheoli a monitro effeithiol. Rhaid ystyried yn ofalus y capasiti a'r adnoddau ar gyfer casglu a dadansoddi data, yn ogystal â sicrhau bod data ar gael yn rhwydd.

- **Sgiliau**
  Gallai archwiliad sgiliau timau DL fod yn arf defnyddiol i fapio lle mae sgiliau a gwybodaeth yn bodoli yn y rhwydwaith i dynnu sylw at fylchau. Gellir mynd i'r afael â'r bylchau hyn drwy gydweithio drwy TCLW, a phartneriaethau â'r byd academaidd. Tynnwyd sylw at alluoedd GIS cryfach o fewn DLs fel bwlch sgiliau allweddol[12] ynghyd â datblygu technoleg a dulliau casglu data ecolegol er mwyn gallu rheoli'n effeithiol.

---

10 Natur am Byth! Achub rhywogaethau sydd dan fygythiad yng Nghymru: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/our-projects/our-nature-projects/natur-am-byth/?lang=en

11 Argymhellion cychwynnol Grŵp Arbenigol Monitro a Thystiolaeth 30 erbyn 30 Cymru, 2025,https://nrwwbp.blob.core.windows.net/media/documents/Initial-recommendations-of-the-30-by-30-Monitoring-and-Evidence-Expert-Group-for-Wales.pdf

12 Berry. G, Cosson.T, Davies.H, Davies.K, Hadfield.T, Johnstone.T, Jones A, Lovell. R, Owen.R, Sinnadurai.P, Story.E, 2024. Argymhellion cychwynnol grŵp arbenigol Tirweddau Dynodedig ar gyfer Cymru. 61, grŵp arbenigol Tirweddau Dynodedig, https://landscapeswales.org.uk/wp-content/uploads/2025/04/Initial-recommendations-of-the-Designated-Landscapes-Expert-Group-for-Wales.pdf



## D: Wedi'i ddatblygu a'i gyflawni'n gynhwysol

- **Cysylltedd natur**
  Mae'r cyd-destun diwylliannol a pholisi yng Nghymru yn addas ar gyfer dull gweithredu ar fyd natur sy'n canolbwyntio ar bobl, a phwyslais mewn cymdeithas ar gysylltiad â natur. Fodd bynnag, nodwyd bod llawer o waith datblygu yn mynd rhagddo o hyd ar lywodraethu da a bod angen i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) wreiddio dull gwirioneddol gynhwysol.

- **Adnoddau**
  Mae bwlch o hyd o ran adnoddau rhwng cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol - gydag ymdrechion i lenwi'r bwlch hwn drwy ddull gweithredu Cymru gyfan. Tynnodd y rhai a oedd yn bresennol sylw at y ffaith bod eu sefydliadau'n ystyried pobl ifanc fel blaenoriaeth strategol, a phwysigrwydd prosiectau cadwraeth sy'n pontio'r cenedlaethau fel Prosiect Penpont ym Mannau Brycheiniog.[13] Nodwyd hefyd y gallai datblygu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru[14] gefnogi anghenion adnoddau yn y dyfodol.

- **Cydnabod cyfraniadau**
  Ar hyn o bryd, nid yw elfennau o'r gwaith cymunedol sy'n bwydo i mewn i Gynlluniau Rheoli yn cael eu cydnabod. Nodwyd bod cydnabod cyfraniadau grwpiau cymunedol, a hwyluso mynediad at gymorth er mwyn i'r grwpiau hyn allu cyfrannu, yn hanfodol er mwyn cau'r bwlch hwn.

- **Ymgynghori ac ymgysylltu**
  Mae cyfarfodydd a gweithdai i drafod ymyriadau ar gyfer adfer natur yn aml yn cynnwys staff sy'n mynychu fel rhan o'u rôl, ond efallai na fydd perchnogion tir a ffermwyr yn gallu mynychu heb gymhelliant ariannol, a all arwain at fylchau mewn ymgysylltu. Nodwyd bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi bod ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae'r broses wedi cynnwys digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb ac mae wedi cael ei chynnal dros amser hir er mwyn gallu mynd i'r afael â materion a godwyd. Yn y pen draw, mae angen i rywun wneud penderfyniad ac mae'n bwysig nodi nad yw cyd-ddylunio yn golygu consensws - nodwyd bod strwythurau pŵer presennol rhwng 'perchnogion' a 'defnyddwyr' yn gallu arwain at wrthdaro weithiau.

13 Prosiect Penpont: https://future.bannau.wales/action/the-penpont-project/

14 Gwasanaeth Natur Cymru: https://gwasanaethnatur.cymru/

# Adrodd ar 30 erbyn 30

## Anghenion data a defnydd o ddata

- **Mynediad at ddata:**
  Mae heriau'n codi o ganlyniad i ddiffyg data a diffyg mynediad at ddata sy'n bodoli.

  Gall y defnydd o ddata ledled Cymru fod yn anwastad, sy'n arwain at ddiffyg data sylfaenol, yn enwedig wrth ddelio â data gwyddorau cymdeithasol.

  Lle ceir mynediad at ddata, yn aml nid oes gan DLs y gallu i'w ddefnyddio a'i ddadansoddi.

- **Monitro ac adrodd:**
  Mae'r ymdrechion monitro ledled Cymru yn dameidiog, mae yna gyfleoedd i gynyddu capasiti drwy gyfuno setiau data presennol ac adnoddau. Mae hyn yn hwyluso rheolaeth effeithiol gan fod angen y data hwn i wneud penderfyniadau gwybodus.

## Dangosydd Effeithiolrwydd Rheoli Ardaloedd a Warchodir ac Ardaloedd Cadwraeth (MEPCA)

Mae Dangosydd MEPCA[15] wedi cael ei restru fel dangosydd ategol o dan Darged 3[16] y Fframwaith Monitro (y cyfeirir ato'n aml fel 30 erbyn 30, gan mai'r targed yw diogelu 30% o dir, dyfroedd a môr yn effeithiol erbyn 2030) y cytunwyd arno yn COP15.

- **Ymwybyddiaeth o ddangosydd MEPCA:**
  Cefnogaeth gref gan yr holl gyfranogwyr i gael briff llawn ar Ddangosydd MEPCA gan JNCC yn benodol ar gyfer Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol - roedd llawer yn gweld hyn fel cyfle i rannu dysgu trawsffiniol.

- **Sgiliau o fewn DLs yng Nghymru i gyfrannu data sydd ei angen ar gyfer y dangosydd MEPCA:**
  Codwyd pryderon ynghylch y baich ychwanegol posibl o ganlyniad i gynhyrchu adroddiadau monitro heb unrhyw fudd i DLs unigol - gan dynnu sylw at bwysigrwydd cysylltu'r Dangosydd MEPCA â Chynlluniau Rheoli lle bo hynny'n bosibl er mwyn peidio â chreu gwaith ychwanegol. Lle mae heriau o ran mesur prosesau a swyddogaethau, yn hytrach na nodweddion, ystyriwyd bod integreiddio DECCA ac MEPCA yn rhywbeth cadarnhaol.

  Pwysleisiodd y rhai a oedd yn bresennol fod y rhai sy'n gweithio mewn DLs yn cael eu tynnu i bob cyfeiriad ac nad oes ganddynt gapasiti ychwanegol, felly efallai na fyddant yn blaenoriaethu casglu data ar gyfer MEPCA. Cyfeiriwyd at Wyddoniaeth Dinasyddion fel adnodd posibl i ymgysylltu â'r gymuned leol a thirfeddianwyr, yn ogystal â chasglu data monitro - gyda'r cafeat y byddai hyn yn gofyn am gapasiti ychwanegol ar gyfer rheoli ansawdd a dadansoddi data.

  Nodwyd bod cyfle i gefnogi uwchsgilio timau DLs. Byddai cadw a datblygu'r timau DL presennol o fudd i adrodd ar 30 erbyn 30 a chynyddu capasiti mewn DLs.

15 MEPCA Indicator: https://jncc.gov.uk/our-work/mepca-indicator/

16 Target 3 of the Kunming-Montreal Global Biodiversity Framework: https://www.cbd.int/gbf/targets/3

## Cynlluniau Rheoli

- **Cydnerthedd ecolegol a monitro:**
  Mae integreiddio monitro i Gynlluniau Rheoli yn hanfodol oherwydd mae monitro'n golygu bod angen monitro'r gwaith o osod amcanion allbwn a chanlyniadau. Felly hefyd proses adborth i sicrhau bod y rheolwyr yn cael eu llywio gan dystiolaeth sy'n deillio o'r monitro. Dyma sut mae monitro safonau cyffredin yn gweithio, er enghraifft. Mae monitro yn aml yn cael ei ystyried fel ôl-ystyriaeth ond mae angen ei gynnwys mewn prosesau o'r dechrau i gael y gwerth gorau am arian, a gwyliadwriaeth o ran data sylfaenol.

- **Cysondeb ledled Cymru:**
  Mae gwahanol gyrff Tirwedd Dynodedig yn mynd i'r afael â'r broses yn eu ffordd eu hunain - mae angen lle i gyrff tirwedd reoli eu hunain yn unigol - ni fyddai gormod o safoni'n briodol o ystyried yr ystod o adnoddau sy'n bodoli rhyngddynt. Mae tynnu sylw at wahanol ddulliau gweithredu yn gweithio'n dda ar gyfer gwahanol dirweddau: Mae Fforwm Eryri yn gweithio'n dda i Eryri, ac mae'r defnydd o economeg toesen yn gweithio'n dda i Fannau Brycheiniog. Gallwn geisio rhannu a thynnu sylw at arferion effeithiol heb orfodi unffurfiaeth. Roedd rhannu arferion effeithiol gan DLs ar draws pedair gwlad y DU hefyd yn cael ei ystyried yn fantais i'r rheini a oedd yn bresennol. Fodd bynnag, dylid cysoni o ran monitro ac adrodd, i sicrhau bod adferiad natur ar darged, a bod hyn yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd.

- **Blaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer natur:**
  Dylai gwytnwch ecolegol fod yn rhan o amcanion Cynlluniau Rheoli ac yn gwau drwyddynt, mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

  Gellid defnyddio Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn fel proses ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer natur. Gydag adnoddau cyfyngedig, beth ddylid ei flaenoriaethu? A fyddem yn gallu adeiladu o safleoedd unigol i raddfa tirwedd gyfan?



# Rhwystrau a Chyfleoedd

## Defnydd tir sy'n cystadlu â'i gilydd

**Cymhlethdod:**
Mae sawl haen i gymhlethdod defnydd tir o fewn DLs, gan gynnwys cysylltiadau pobl a natur, elfennau naturiol a diwylliannol, yr angen am reolaeth effeithiol a'r angen i fodloni safonau rheoleiddio. Mae cyfleoedd i gyrff cyhoeddus dorri drwy'r prosesau hyn a'u symleiddio - gallai mwy o weithio colegol a system basbort unioni hyn.

Mae Tirweddau Dynodedig yng Nghymru nid yn unig yn dirweddau gwledig, maent yn cynnwys aneddiadau hefyd, felly mae yna nifer o amcanion. Mae angen ystyried diwylliant, hanes, traddodiadau ac economeg - gan fod y rhain i gyd yn bwydo i mewn i'r hyn sy'n diffinio tirwedd.

**Maint:**
Mae maint yn ystyriaeth allweddol - efallai y bydd un peth yn gweithio ar draws Cymru gyfan, tra bydd un arall ond yn gweithio ar draws rhanbarth penodol.

Gall defnydd tir sy'n cystadlu deimlo fel pwnc haniaethol fel y trafodir yn aml ar lefel gynllunio - byddai cynhyrchu delweddau o'r hyn y gallai tirfeddianwyr ei wneud i gyfrannu at adfer natur (gwrychoedd, pyllau bach, mosaigau o gynefinoedd, ac ati) yn ddefnyddiol i ddangos yr amrywiaeth eang o ymyriadau sy'n gweithredu fel 'cerrig camu ar gyfer natur'. Byddai hyn yn helpu i gefnogi ymwybyddiaeth o sut beth yw Rhwydwaith Ecolegol â Blaenoriaeth.

## Ffermio Bro (Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig)

Bydd tair haen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy[17] - cyffredinol, dewisol a chydweithredol. Mae rhaglen beilot ar gyfer yr haen gydweithredol wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer y rheini sy'n ffermio mewn tirweddau dynodedig; bydd Ffermio Bro "yn integreiddio cymhellion ar gyfer arferion ffermio cadarnhaol at ddibenion Tirweddau Dynodedig".[18]

**Rhwydweithiau ac ymddiriedaeth:**
Mae meithrin ymddiriedaeth rhwng ffermwyr a DLs yn hanfodol er mwyn sicrhau'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i adfer natur. Gallai Ffermio Bro fod yn bont i nodi cyfleoedd a buddsoddiadau ar raddfa fwy, a galluogi holl elfennau DECCA ar draws y dirwedd.

Nodwyd bod y Rhwydwaith Ffermio sy'n Ystyriol o Natur yng Nghymru yn enghraifft dda o gysylltu ffermwyr ag ecoleg, a gallai Ffermio Bro fod yn gyfle i roi mwy o wybodaeth ecolegol i ffermwyr. Gyda rhwydweithiau cryfach ar draws DLs, mae potensial i greu tirwedd caleidosgopig, er enghraifft drwy ffermwyr yn cydweithio i greu mathau o dirwedd sy'n cylchdroi.

Nodwyd bod cynllun cyfatebol Lloegr (FiPL - Ffermio mewn Tirweddau Gwarchodedig) wedi cael derbyniad da.[19]

---

17 Cynllun Ffermio Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru: https://www.gov.wales/sustainable-farming-scheme

18 Ffermio Bro: cynllun newydd ar gyfer ffermwyr mewn Tirweddau Dynodedig: https://landscapeswales.org.uk/ffermio-bro-a-new-scheme-for-farmers-in-designated-landscapes/

19 Farming in Protected Landscapes, Year 3 Report, 2025, ahttps://national-landscapes.files.svdcdn.com/production/assets/images/Documents/Reports/Final-FiPL-Report-2025.pdf?dm=17411836044

**Amserlen:**
Mae'n hanfodol bod y cynllun yn gweithredu yn y tymor hir i wreiddio arferion gorau ac i feithrin ymddiriedaeth, gyda rhai pryderon na fydd Ffermio Bro yn parhau y tu hwnt i gynllun peilot - byddai hyn yn rhoi partneriaethau newydd a ddatblygwyd fel rhan o'r cynllun mewn perygl.

Mae manteision sicrhau cyllid tymor hir ar gyfer y cynllun hefyd yn cynnwys cefnogi ffermwyr i gyflawni dros fyd natur yn y tymor hir - byddai'n rhoi cyfle i ffermwyr edrych ar yr hyn sydd ganddynt nawr, sut y gellid ei wella, a nodi'r pwysau a'r newidiadau tebygol i asedau naturiol. Yn y tymor hwy hyd yn oed, gellid darparu cymorth i rannu'r hyn a ddysgwyd gyda ffermwyr y dyfodol mewn colegau amaethyddol lleol. Gallai'r cynllun roi cyfle i uwchsgilio ffermwyr, cynghorwyr ac ecolegwyr - gan arwain at fanteision i'r tirweddau ac i yrfaoedd pobl ynddynt.

## Sgiliau, adnoddau a chyllid

**Defnyddio deallusrwydd artiffisial a thechnolegau eraill:**
Cynyddu'r defnydd o fodelu LiDAR (Canfod a Mesur Golau) a GIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol) - ond mae angen i ecolegwyr ei brofi ar lawr gwlad o hyd.

Trafodaeth ynghylch defnyddio deallusrwydd artiffisial a'r angen i sicrhau ei fod yn cael ei 'brofi ar lawr gwlad' ar ddata perthnasol o Gymru - ac y gallai hyn fod yn wahanol ar draws y llu o dirweddau yng Nghymru yn unig.

**Cyllid:**
Un rhwystr allweddol y tynnwyd sylw ato oedd cyllid - yr angen i ganolbwyntio adnoddau cyfyngedig er mwyn cael y gwerth gorau am arian.  Mae cyllid tymor byr yn ei gwneud yn ofynnol i staff dreulio amser ar ddatblygu ac adrodd ar brosiectau, ac mae'n llesteirio eu gallu i feddwl yn y tymor hwy. Cydnabod bod cyllid yn mynd y tu hwnt i Lywodraeth Cymru, a bod angen gwneud rhagor o waith i ddatgloi cyllid gwyrdd preifat. Casglu enghreifftiau lle mae adnoddau a chyllid penodol wedi cael effaith gadarnhaol fel tystiolaeth ar gyfer buddsoddiad pellach (mae enghreifftiau'n cynnwys adfer mawndiroedd ledled Cymru[20]).

**Amser a brys:**
Nodwyd bod anghysondeb rhwng pa mor gyflym y mae angen cymryd camau i adfer natur, a pha mor gyflym y mae newid yn digwydd drwy DLs a chyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae angen blaenoriaethu adfer natur er mwyn mynd i'r afael â hyn, yn enwedig gan fod unrhyw oedi cyn gweithredu yn cael ei waethygu gan yr amser a gymerir i adfer natur ar ôl i ymyriadau gael eu gwneud. Er enghraifft, dylid rhoi blaenoriaeth i adfer natur mewn Cynlluniau Rheoli, ond mae oedi cyn gweithredu nes bydd hyn yn digwydd - gyda chanllawiau newydd ar gyfer y Cynlluniau Rheoli a chrynodeb yn cael ei baratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mae amser yn allweddol er mwyn helpu i roi arweiniad i DLs wrth iddynt adolygu eu Cynlluniau Rheoli presennol.

**Cyfathrebu a chydweithio:**
Mae meithrin ymddiriedaeth ar draws partneriaethau mawr a grwpiau cydweithredol yn cymryd amser ac adnoddau sylweddol i'w cynnal yn gynhyrchiol, ac mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid am ddatblygiadau yn allweddol i wneud cynnydd.

Nodwyd bod iaith yn ystyriaeth bwysig - nid yn unig yr angen i ystyried y Gymraeg a'r Saesneg, ond hefyd y gall dewis DLs o eiriau ynghylch adfer natur gael effaith enfawr - e.e. gall 'Dad-ddofi' fod yn derm anodd ei ddefnyddio yng Nghymru.

20 Adfer mawndiroedd yng Nghymru: https://www.gov.wales/welsh-government-beats-peatland-targets-year-early-saving-more-8000-tonnes-carbon-every-year

# Casgliad

Mae Tirweddau Dynodedig yng Nghymru yn hanfodol i ateb yr her o wrthdroi colli natur a meithrin gwytnwch ecolegol tymor hir. Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd gwreiddio adfer natur ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu a monitro'r tirweddau hyn, gan ddefnyddio meini prawf ABCD Cymdeithas Ecolegol Prydain - Ardal, Bioamrywiaeth, Cyflwr a Chyflawni - fel fframwaith arweiniol.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn mewn ffordd gyson a mesuradwy, rhaid i waith Tirweddau Dynodedig nawr gyd-fynd ag adnoddau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer asesu effeithiolrwydd rheoli, yn enwedig y dangosydd MEPCA (Effeithiolrwydd Rheoli Ardaloedd Gwarchodedig ac Ardaloedd Cadwraeth). Mae'r MEPCA yn darparu ffordd strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o asesu a yw ardaloedd gwarchodedig yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau canlyniadau cadwraeth, ac mae'n cynnig ategiad gwerthfawr i'r meini prawf ABCD. Mae integreiddio fframwaith DECCA (Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd a Hyblygrwydd) yn cefnogi hyn ymhellach drwy wreiddio camau gweithredu mewn egwyddorion ecolegol.

Yn ogystal â'r llu o brosiectau a rhaglenni sydd eisoes ar waith mewn Tirweddau Dynodedig i gefnogi adferiad natur a gweithredu ar yr hinsawdd, mae Ffermio Bro yn cynnig cyfle allweddol i gefnogi arferion ffermio cadarnhaol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y canlyniadau hyn. Drwy wreiddio egwyddorion amaethyddiaeth adfywiol - fel adfer iechyd pridd, gwella bioamrywiaeth, a lleihau'r ddibyniaeth ar fewnbynnau allanol - gall Ffermio Bro weithredu fel mecanwaith cyflawni sy'n cysylltu ymarfer ar lefel fferm â newid, monitro ac asesu cadarnhaol ar raddfa tirwedd.

Er mwyn bod yn effeithiol, mae'r dull integredig hwn yn gofyn am adnoddau tymor hir, buddsoddiad mewn systemau monitro a data, a datblygu sgiliau newydd ar draws timau DL. Yn hollbwysig, mae'n rhaid i hyn gynnwys meithrin gallu i gyfrannu data at adnoddau fel MEPCA a dehongli'r asesiadau hyn fel rhan o gylchoedd rheoli addasol. Bydd cynnwys gwyddoniaeth dinasyddion, cyfraniadau cymunedol a rhwydweithiau cyfnewid gwybodaeth hefyd yn hanfodol er mwyn cynnal momentwm a dilysrwydd.

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i arwain y gwaith o ddangos sut gall tirweddau dynodedig gyflawni adferiad natur mesuradwy, credadwy a chynhwysol. Mae bod yn ymwybodol o'r meini prawf ABCD a'r argymhellion ychwanegol ar gyfer tirweddau gwarchodedig wrth i ni ddefnyddio'r dangosydd MEPCA yn sicrhau nid yn unig bod sail dda i uchelgeisiau ond bod modd eu holrhain, eu gwerthuso a'u gwella dros amser - gan greu tirweddau sy'n ddeinamig, yn wydn ac sy'n gallu cefnogi natur a phobl am genedlaethau i ddod.

BRITISH
ECOLOGICAL
SOCIETY

Tirweddau Cymru
Landscapes Wales

britishecologicalsociety.org

British Ecological Society
42 Wharf Road, London N1 7GS
Tel: +44 (0)20 3994 8282
hello@britishecologicalsociety.org

Charity number 281213

Tirweddau Cymru, partneriaeth
o Dirweddau Dynodedig Cymru

tirweddaucymru.org.uk

contact@landscapeswales.org.uk